# Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021

**2021 dsc 3**

*Hysbysiad y landlord: y cyfnodau hysbysu byrraf a ganiateir*

**1 Hysbysiad y landlord o dan gontract safonol cyfnodol: y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir**

(1) Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) ("*Deddf 2016*") wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 174 (hysbysiadau o dan adran 173: y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir)—

(a) yn is-adran (1), yn lle "dau fis" rhodder "chwe mis";

(b) yn lle is-adran (2) rhodder—

"(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol, ac eithrio contractau safonol cyfnodol—

(a) nad ydynt yn ymgorffori adran 173 fel un o delerau'r contract, neu

(b) sydd o fewn Atodlen 8A (pa un a ydynt yn ymgorffori adran 173 fel un o delerau'r contract ai peidio)."

(3) Ar ôl adran 174 mewnosoder—

"**174A Y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir: contractau safonol cyfnodol o fewn Atodlen 8A**

(1) Os yw contract safonol cyfnodol o fewn Atodlen 8A, ni chaiff y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan adran 173 fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract.

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol sydd—

(a) yn ymgorffori adran 173 fel un o delerau'r contract, a

(b) o fewn Atodlen 8A."

**2 Cymal terfynu'r landlord o dan gontract safonol cyfnod penodol: y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir**

(1) Mae Deddf 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 195 (cymal terfynu'r landlord: y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir)—

(a) yn is-adran (1), yn lle "dau fis" rhodder "chwe mis";

(b) yn lle is-adran (2) rhodder—

"(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol, ac eithrio contractau safonol cyfnod penodol—

(a) nad ydynt yn cynnwys cymal terfynu'r landlord, neu

(b) sydd o fewn Atodlen 8A (pa un a ydynt yn cynnwys cymal terfynu'r landlord ai peidio)."

(3) Ar ôl adran 195 mewnosoder—

**"195A Y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir: contractau safonol cyfnod penodol sydd o fewn Atodlen 8A**

(1) Os yw contract safonol cyfnod penodol o fewn Atodlen 8A, ni chaiff y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract.

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd—

(a) yn cynnwys cymal terfynu'r landlord, a

(b) o fewn Atodlen 8A."

**3 Contractau safonol sydd â chyfnod hysbysu a ganiateir o ddau fis**

Mae Atodlen 1 yn mewnosod Atodlen 8A newydd i Ddeddf 2016, sy'n nodi'r contractau safonol y gellir eu terfynu gan y landlord ar ôl cyfnod hysbysu o ddau fis.